

Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau – Cyngor Sir Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4853A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

[Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.]

Cynnwys

Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut mae da yn edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 6

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf yr archwiliad 10

Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a geir yn:
 - adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) er mwyn helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau;
 - adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:
 - rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
 - rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau;
 - esbonio sut mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau, ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.

Pam mae comisiynu yn bwysig

- 4 Comisiynu yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau drwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fydd y Cyngor yn trefnu ei ddull cyflawni. Er enghraifft, drwy sefydlu tîm cyflawni yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.
- 5 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, fel caffael a rheoli contractau, yn gadarn.



Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut mae da yn edrych¹

- 6 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.
- 7 Nid oedd yr archwiliad hwn yn ymdrin â threfniadau caffael na threfniadau rheoli contract y Cyngor.
- 8 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**
- 9 Gwnaethom ddefnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn Atodiad 1, sydd hefyd yn dangos sut mae'r meini prawf yn cysylltu â'r cwestiynau archwilio. Llywiwyd hyn gan ein gwybodaeth gronol yn ogystal â'r hierarchaeth gwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol a ddatblygwyd gennym i gefnogi ein harchwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.



Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

- 10 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweiliadau gyda'r uwch-swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Gwnaethom hefyd gyfwrdd ag uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.
- 11 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, gwnaethom gynnal profion sampl o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, gwnaethom ddewis sawl gwasanaeth y mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol ar eu cyfer ac archwilio'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o feysydd gwasanaeth a gomisiynir a adolygwyd gennym yn y Cyngor oedd:
 - Hostel anghenion cymhleth Tŷ Catwg;
 - trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;

¹ Diffinnir fel 'yr hyn a ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arferion gorau, neu 'yr hyn a allai fod', o dan amodau gwell.

- cawsom hefyd dystiolaeth benodol gan feysydd gwasanaeth eraill megis arfarnu opsiynau a strategaeth gomisiynu maes gwasanaeth.

- 12 Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod mis Awst 2024.
- 13 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.



Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 14 Gall y Cyngor ddarparu enghreifftiau lle mae ganddo drefniadau ar waith wrth gomisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, ni all ddangos bod trefniadau tebyg yn bodoli ar draws pob maes gwasanaeth. Heb y sicrwydd hwnnw, mae risg nad yw'r Cyngor yn sicrhau gwerth am arian yn gyson drwy'r gwasanaethau a gomisiynir. Nodwn isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

Trefniadau comisiynu'r Cyngor

- 15 Mae'r holl wasanaethau, waeth beth fo'u mecanwaith darparu, yn cael eu comisiynu. Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â gweithredu dull Cyngor cyfan o gomisiynu. Yn hytrach, mae'n disgwyl i bob maes gwasanaeth drefnu trefniadau comisiynu priodol.

Rhesymeg dros gomisiynu gwasanaethau

- 16 Yn seiliedig ar y ddau wasanaeth a adolygwyd gennym, mae'r Cyngor yn egluro'n glir pa wasanaethau y mae am eu comisiynu a pham. Fodd bynnag, nid oes ganddo drefniadau ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson ar draws y sefydliad. Mae meddu ar ddealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a'r gwahanol opsiynau sydd ar gael yn elfennau pwysig o'r trefniadau i sicrhau gwerth am arian.
- 17 Er enghraifft, mewn gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cynnal Tai a dogfennau comisiynu gwasanaethau cymdeithasol, mae'r Cyngor yn defnyddio manyleb gwasanaeth manwl. Mae hyn yn diffinio'r gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu a'r angen amdano. Fodd bynnag, ni ddarparodd y Cyngor dystiolaeth o drefniadau tebyg ar draws y sefydliad cyfan.
- 18 Darparodd y Cyngor dystiolaeth o arfarniad opsiynau a gynhaliodd ar gyfer y gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol, gan gynnwys opsiwn darparwr allanol. Fodd bynnag, ni chynhaliodd y Cyngor ymarfer tebyg ar gyfer y gwasanaethau eraill y gwnaethom edrych arnynt. At hynny, nid oes ganddo drefniadau i sicrhau ei fod yn cynnal arfarniadau opsiynau cynhwysfawr yn gyson ar draws y sefydliad. Mae hyn

yn golygu nad yw'r Cyngor bob amser yn ystyried pob opsiwn i sicrhau ei fod yn cael y gwerth gorau am arian.

- 19 Mae gan y Cyngor Bolisi a Strategaeth Caffael 2022-23 i 2026-27. Fodd bynnag, nid yw hwn yn nodi sut y dylai meysydd gwasanaeth benderfynu a ddylid comisiynu gwasanaeth cyn dechrau ar y broses gaffael. Gwelsom enghreifftiau o strategaethau comisiynu lefel gwasanaeth, megis ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi diffinio dull comisiynu cyson ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau nad ydynt yn cynrychioli gwerth da am arian.

Cynllunio dros amserlen briodol

- 20 Ar gyfer y gwasanaethau a adolygwyd gennym, roedd y Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol ac roedd sail resymegol glir ar gyfer hyd y contractau a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, mae hyd contractau a chyfnodau adolygu contractau yn ystyried y cylch ariannu grant perthnasol. Yn y Diweddariad o Gynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-2025, mae'r Cyngor wedi nodi gwahanol opsiynau yn dibynnu ar lefelau amrywiol y cyllid grant a dderbynnir yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos ei fod yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ystod o senarios posibl. Roedd gan y gwasanaethau a adolygwyd gennym brosesau sefydledig ar gyfer monitro darpariaeth gwasanaeth dros gyfnod y contract.
- 21 Nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer y sefydliad cyfan i ystyried yn gyson:
- a yw'r penderfyniad cychwynnol i gomisiynu'r gwasanaeth yn cynrychioli gwerth da am arian;
 - gofyniad ffurfiol i ystyried gwerth am arian fel rhan o fonitro'r contract.
- 22 Felly, ni all fod yn sicr bod ei ddull comisiynu yn sicrhau gwerth am arian yn gyson i'w holl wasanaethau yn y tymor byr, canolig a hir.

Effaith ehangach

- 23 Nid yw'r Cyngor bob amser yn ystyried effaith ehangach y gwasanaethau a gomisiynir. Rhaid i'r penderfyniadau hynny y mae angen cymeradwyaeth ar lefel y Cabinet arnynt ddangos sut y maent yn berthnasol i amcanion llesiant y Cyngor, gan ddefnyddio'r templed adroddiad perthnasol.
- 24 Fodd bynnag, ni ddarparodd y Cyngor unrhyw dystiolaeth ei fod yn ystyried sut mae ei wasanaethau a gomisiynir yn berthnasol i sefydliadau eraill na'r nodau llesiant cenedlaethol. Drwy beidio â gwneud hyn, efallai y bydd y Cyngor yn colli cyfleoedd i leihau dyblygu, sicrhau buddion lluosog neu wella canlyniadau a gwerth am arian.

Gweithio gydag eraill

- 25 Gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod y Cyngor yn cynnwys partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau wrth gomisiynu gwasanaethau. Er enghraifft, comisiynodd y Cyngor y prosiect VAWDASV² mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Roedd rhai meysydd gwasanaeth hefyd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio gwasanaethau a gomisiynwyd.
- 26 Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau corfforaethol i sicrhau bod y rhai y mae gwasanaeth yn effeithio arnynt yn cymryd rhan yn ei waith comisiynu ar draws pob maes gwasanaeth. Drwy beidio â chael trefniadau i gynnwys y bobl gywir yn gyson, mae'r Cyngor yn cynyddu'r risg ei fod yn comisiynu gwasanaethau nad ydynt yn diwallu anghenion pobl ac felly nad ydynt yn cynrychioli gwerth am arian.

Gwerthuso ei ddull ei hun

- 27 Mae gan y Cyngor drefniadau cyfyngedig ar waith i asesu gwerth am arian y gwasanaethau a gomisiynir ganddo. Yn y gwasanaethau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom drefniadau i asesu a monitro a yw'r gwasanaethau hynny'n bodloni eu hamcanion ac yn darparu gwerth am arian. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu ar draws y sefydliad yn rheolaidd ac yn gyson.
- 28 Yn ogystal, nid oes gan y Cyngor ffordd gyson o rannu gwersi a ddysgwyd o weithgarwch comisiynu ar draws y sefydliad. Mae hyn yn bwysig gan fod rhai meysydd gwasanaeth yn llai profiadol mewn comisiynu nag eraill. Gallai gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu nodi gwelliannau a ffyrdd o sicrhau gwerth am arian. Drwy beidio â rhannu gwybodaeth ar draws y sefydliad, mae'r Cyngor yn cynyddu'r risg na chaiff gwersi eu dysgu ac na chaiff gwerth am arian ei sicrhau.



Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Argymhellion

- A1 Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sicrhau:
- 1.1 y cynhelir arfarniadau opsiynau cynhwysfawr fel rheol wrth gomisiynu gwasanaethau ac mae'r rhain yn cynnwys costau a buddion llawn pob opsiwn; (**paragraff 18**)

² Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Argymhellion

- 1.2 bod penderfyniadau comisiynu:
 - yn cael eu hategu gan gofnodion priodol;
 - yn ystyried ffactorau tymor byr, canolig a hir;
 - yn cael eu llywio gan farn y rhai yr effeithir arnynt gan y gwasanaeth a gomisiynir;
 - yn cynnwys asesiad o risg (**paragraffau 20 i 26**).
- 1.3. bod monitro contractau yn asesu ac yn monitro gwerth am arian yn rheolaidd (**paragraff 21**).

- A2 Er mwyn osgoi dyblygu a nodi cyfleoedd i sicrhau buddion lluosog, dylai'r cyngor ystyried ei amcanion llesiant ei hun, amcanion llesiant partneriaid a'r nodau llesiant cenedlaethol wrth gomisiynu gwasanaethau. (**paragraff 23**).

- A3 Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian a chanlyniadau, dylai:
- 3.1 gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu ar draws y sefydliad yn rheolaidd ac yn gyson (**paragraff 26**);
 - 3.2 rhannu dysgu o weithgarwch comisiynu ar draws y Cyngor (**paragraff 28**).

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol: Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

Cwestiynau lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
A oes gan y Cyngor sail resymegol glir dros gomisiynu gwasanaethau?	A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham?	• Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu • Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys: – y canlyniadau/effaith a fwriedir wrth ddarparu'r gwasanaeth – a yw'r gwasanaeth/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol
	A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o opsiynau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth?	• Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai'r opsiynau gynnwys, er enghraifft – darpariaeth fewnol – trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau – allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall drwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall – contractio'r gwasanaeth drwy broses dendro • Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision yr opsiynau o safbwynt bod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir • Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau o fewn ei asesiad o opsiynau comisiynu • Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o risg ar gyfer pob opsiwn comisiynu fel rhan o'r asesiad o gostau a manteision

		Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau presennol a thymor hir sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir
A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol?	A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau?	- Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen y gall/y dylai gynllunio a pham - Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwysio anghenion tymor byr a thymor hir wrth gynllunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill
	A yw'r Cyngor yn deall y goblygiadau tymor hir o ran adnoddau wrth gomisiynu gwasanaethau?	- Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir - Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol i wasanaethau a gomisiynir
	A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir?	- Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir - Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys: – costau a buddiannau – cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a hwy
A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai'r gwasanaeth a gomisiynir ganddo eu cael?	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall wneud y cyfraniad gorau posibl at amcanion llesiant y Cyngor?	Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau buddion amryfal, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, ystyried amcanion tymor hwy, cadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd amser contract, bioamrywiaeth, lleihau carbon
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y	Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill i sicrhau buddion amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol

	cyfraniad gorau posibl at amcanion llesiant y Cyngor?	
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y cyfraniad gorau o'u cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol?	Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau buddion amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol
A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu'r gwasanaethau a gomisiynir ganddo?	A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys?	Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd y gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu debyg.
	A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl?	- Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau. - Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cyfranogi i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
	A yw'r Cyngor yn cydweithio â'r partneriaid cywir?	- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau - Lle nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn
A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu?	A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel rheol?	- Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull o gomisiynu yn rheolaidd, gan gynnwys: - i ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod - gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd, gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau

A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd fel rheol er mwyn llywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol?

- Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol.



Archwilio Cymru

Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.